

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill ar gyfer cyfarfod o'r **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams  
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **NORTH WALES RESIDUAL WASTE JOINT COMMITTEE** are attached.

Yours faithfully,

Gary Williams  
**Head of Legal and Democratic Services**

## **AGENDA**

### **1 PECYN AGENDA**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 1



**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**  
Chief Officer (Governance)  
Prif Swyddog (Llywodraethu)

To: **Councillor Eryl Williams (Chairman)**

CS/NG

Y Cynghorwyr: Dave Cowans, Richard Dew,  
Goronwy Edwards, John Wynn Jones, Kevin  
Jones, J. Arwel Robert, Aaron Shotton and David  
Smith

16 Tachwedd 2016

Nicola Gittins 01352 702345  
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir Cyfarfod **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU yn CANOLFAN FUSNES CONWY, FFORDD CYFFORDD, LLADUDNO JUNCTION LL31 9XX ar DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2016 am 1.00 y.p** i drafod y materion canlynol.

Yr eiddoch yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Robert Robins'.

Robert Robins  
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

## **AGENDA**

- 1 **YMDDIHEURIADAU**
- 2 **DATGAN DIDDORDEB**
- 3 **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

---

County Hall, Mold. CH7 6NA  
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4  
[www.flintshire.gov.uk](http://www.flintshire.gov.uk)  
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR  
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4  
[www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk)

The Council welcomes correspondence in Welsh or English  
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

**Tudalen 3**

4 **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

5 **ADRODDIAD CYNNYDD**

6 **DIWEDDARIAD RHEOLI CYTUNDEB**  
Fe fydd diweddariad ar lafar yn y cyfarfod

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – I GYSIDRO  
EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Mae'r eitemau isod yn cael ei gysdrio fel eitem i'w eithrio dan paragraff(au) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972 (fel a ddiwygwyd)

Mae'r proses caffael yn fyw a byddai'n rhagfarnllyd i'w wneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

7 **DIWEDDARIAD CAFFAEL**

8 **RHWYDWAITH GORSAFOEDD TROSGLWYDD GWASTRAFF**

9 **UNRHYW FATER ARALL**



## **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLOL** **GOGLEDD CYMRU**

Dydd Llun 27 Mehefin, 2016 am 10.00am  
Optig Glyndŵr, Llanelwy

---

### **YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Eryl Williams

Cynghorydd Richard Dew

Cynghorydd Goronwy Edwards

Cynghorydd Kevin Jones

Cynghorydd John Wynn Jones

Cynghorydd J. Arwel Roberts

Cynghorydd David Smith

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Sir Ddinbych

### **HEFYD YN BRESENNOL:**

#### **Cyngor Sir y Fflint**

Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol), Gareth Owens (Swyddog Monitro), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol)

#### **Cyngor Sir Ddinbych**

Meirion Edwards

#### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Geraint Edwards

#### **Cyngor Gwynedd**

Medwyn Williams (Uwch Reolwr – Trin Gwastraff)

#### **Cyngor Sir Ynys Môn**

Dewi Williams (Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd a Thrin Gwastraff)

### **Prosiect Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru**

Steffan Owen (Rheolwr y Prosiect)

#### **1. YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Dave Cowans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Aaron Shotton (Cyngor Sir y Fflint)

#### **2. DATGAN DIDDORDEB**

Doedd dim datganiadau o ddiddordeb.

#### **3. ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD I'R CYD-BWYLLGOR**

Enwebwyd Cynghorydd Eryl Williams, Cyngor Sir Ddinbych, ar gyfer pleidlais i fod yn Gadeirydd.



Enwebwyd Cynghorydd Kevin Jones, Cyngor Sir y Fflint, ar gyfer pleidlais i fod yn Is-gadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

*Ethol Cynghorydd Eryl Williams yn Gadeirydd; a hefyd Ethol Cynghorydd Kevin Jones yn Is-gadeirydd.*

4. **CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD CYNHARACH**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru, a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2015, i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:** *cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2015 fel rhai cywir.*

4. **MATERION YN CODI O GYFARFODYDD CYNHARACH**

Doedd dim materion yn codi.

5. **CYFRIFON BLYNYDDOL**

Cyflwynodd Gary Ferguson, Rheolwr Cyllid Corfforaethol (Cyngor Sir y Fflint) y Manylion Ariannol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Roedd rhaid i'r rheiny gael eu harwyddo gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol a'u cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor cyn y terfyn amser o 30 Mehefin. Byddai'r archwiliad yn dechrau yn union ar ôl i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Manylion Ariannol Blynyddol.

Cyfeiriwyd at y datganiad o incwm a gwariant / derbyniadau a thaliadau, oedd ynghlwm yn atodiad 1 yr adroddiad. Roedd yr atodiad yn rhoi manylion o gostau staff a chyfanswm taliadau eraill, yn cynnwys yr arian a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer pob blwyddyn.

Cyfeiriodd Gary Ferguson at y ffigwr o dan y pennawd 'Total other receipts;' ar dudalen 10 o'r rhaglen ac eglurodd y dylid cywiro'r ffigwr hwn o 267,950 i 287,950. Roedd wedi cael ei newid yn y copi terfynol i'w lofnodi gan y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:** *Cymeradwyo'r Manylion Ariannol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.*

6. **ADRODDIAD CYNNYDD**

Rhoddodd Colin Everett, Prif Weithredwr Arweiniol, (Cyngor Sir y Fflint) adroddiad manwl ar y datblygiadau diweddaraf, gan gyfeirio'n benodol at hysbysiad oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ddyfarnu grant oedd yn werth £5.62m y flwyddyn dros gyfnod gweithredol y contract o 25 mlynedd.

Rhoddodd Steffan Owen, Rheolwr y Prosiect, amlinelliad o'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016/17 fel y gwelwyd yn y manylion yn Atodiad 1 o'r



adroddiad. Roedd y gyllideb ddrafft wedi cael ei rhannu'n ddwy ran i adlewyrchu bod y prosiect yn symud tuag at y Cau Ariannol.

Cai pob mater arall sylw yng ngweddill yr eitemau ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:** *Nodi'r adroddiad cynnydd.*

## 7. **RHWYDWAITH GORSAFOEDD TROSGLWYDDO GWASTRAFF**

Cyflwynodd Steffan Owen, Rheolwr y Prosiect, ddiweddiad ar y symud tuag at gael safle(oedd) i Orsaf(oedd) Trin Gwastraff yng Nghonwy a / neu Sir Ddinbych. Roedd wedi cael ei gydnabod ar ddechrau'r broses gaffael y byddai angen i bob awdurdod gludo eu gwastraff gweddillol o'u hawdurdodau eu hunain i ble bynnag byddai'r safle trin. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yr unig awdurdod partneriaeth heb fod ganddynt eu gorsaf trosglwyddo gwastraff tu mewn i'w ffiniau. Felly roeddent wedi bod yn chwilio am safle ar gyfer gorsaf, i gael ei hariannu gan y bartneriaeth.

Roedd trafodaethau helaeth wedi digwydd yn y Bwrdd Prosiect, a chytunwyd mai'r ateb mwyaf effeithlon oedd i Gonwy a Sir Ddinbych ddatblygu eu gorsaf trosglwyddo gwastraff eu hunain yn unigol. Roedd y Bwrdd Prosiect wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd oddi wrth Gonwy a Sir Ddinbych am eu gwaith yn datblygu eu gorsaf trosglwyddo eu hunain, a rhoddwyd diweddiad manwl yn yr adroddiad.

Gofynnodd Cyngorydd Kevin Jones a fyddai costau cludo ychwanegol yn digwydd wrth gael dwy orsaf trosglwyddo gwastraff ar wahân. Cadarnhaodd Steffan Owen na fyddai unrhyw effaith ariannol i'r awdurdodau partner.

Adroddodd Steffan Owen y byddai'r swyddogion technegol yn penderfynu ar ddull o ddosrannu costau, boed hynny trwy fesur y pwysau (e.e. tunelli o wastraff gweddillol fel cyfran o'r cyfanswm o wastraff / deunydd ailgylchu yn cael ei drin ar y safle), neu ddull arall fel cael arbenigwyr annibynnol i bennu, os nad oedd cyfrifo fesul tunnell yn cael ei farnu'n addas.

Gofynnodd Cyngorydd Kevin Jones sut byddai'r cynigion yn ffitio gyda rhaglen gydweithio Llywodraeth Cymru. Dywedodd Colin Everett, Prif Weithredwr (Cyngor Sir y Fflint) nad oedd y cynigion yn cael effaith negyddol ar y cynnig o grant oddi wrth Lywodraeth Cymru, oedd yn cefnogi cael ateb logistaidd.

**PENDERFYNWYD:** *Nodi'r adroddiad.*

## 8. **AIL GYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU**



Cyflwynodd Gareth Owens, Swyddog Monitro (Cyngor Sir y Fflint) ddiweddariad ar sut roedd y trafodaethau'n dod ymlaen i gael ateb terfynol i'r Ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau. Roedd crynodeb yn yr adroddiad o'r holl ystyriaethau a meysydd trafod. O ganlyniad i'r drafodaeth, cytunwyd i wneud nifer fechan o newidiadau i'r ddogfen, gan dynnu sylw at y rheiny yn adroddiad y Swyddog Cyfreithiol Arweiniol, ynghlwm yn Atodiad 2 o'r Adroddiad.

Gofynnodd Cyngorydd Kevin Jones am eglurhad o'r gostyngiad mewn mathau o ddeunyddiau yn y blynyddoedd i ddod, ac a gai hynny effaith, yn ei dro, ar y ffi glwyd a'r ganran o ddeunydd gai ei gymryd rhag ei fod yn mynd i lefydd eraill. Eglurodd Gareth Owens bod WTI wedi caniatáu i awdurdodau sortio 5,000 tonn o wastraff cyn iddo gyrraedd WTI. Roedd yr Ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau'n gwneud trefniadau ar gyfer sut i rannu hynny rhwng awdurdodau.

### **PENDERFYNWYD:**

(a) *Nodi'r adroddiad; a hefyd*

(b) *Cymeradwyo'r newidiadau i'r Ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau, fel y dangoswyd mewn amlinell yn yr adroddiad.*

### **8. EITEM EITHRIEDIG: DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ADRAN 100A AC ATODLEN 12A (HAWL I WYBODAETH)**

**PENDERFYNWYD-** *Bod y Cyhoedd a'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A y Ddeddf uchod, yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol gan ei bod yn ymwneud â datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf a bod y broses contract yn dal ar y gweill ac y byddai'n cael ei niweidio drwy ei gwneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.*

### **9. DIWEDDARIAD AR GAFFAEL**

Rhoddodd Colin Everett, Prif Weithredwr (Cyngor Sir y Fflint) ddiweddariad manwl o sut roedd pethau'n dod ymlaen gyda WTI i gyrraedd Cau Ariannol. Roedd manylion yn yr adroddiad o'r meysydd allweddol o drafodaeth oedd yn parhau i fod angen eu trin yn Rhagfyr 2015.

Codwyd nifer o gwestiynau am yr amserlen, gwastraff trydydd parti, oblygiadau cost ac oblygiadau Deddf yr Amgylchedd. Rhoddodd Colin Everett a Steffan Owen atebion manwl i'r cwestiynau.

Cafodd yr Aelodau eu sicrhau bod yr holl faterion technegol, ariannol a chyfreithiol-fasnachol cyn hynny wedi cael eu hateb heb unrhyw bryderon.

### **PENDERFYNWYD-**

(a) *Nodi'r adroddiad; a hefyd*





- (b) *Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr Arweiniol symud ymlaen i'r Cau Ariannol ac arwyddo'r cytundeb ar ran yr awdurdodau, os atebir yn llawn yr amodau yn 3.6 o'r adroddiad; a hefyd*
- (c) *Trefnu i gynnal cyfarfod o'r Cyd Bwyllgor cyn i'r Cau Ariannol ddigwydd.*

7. **UNRHYW FATER ARALL**

Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i Steve Parker (Cyngor Sir Ddinbych) a'r Cynghorydd Mike Priestley (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac awgrymodd y dylid ysgrifennu llythyr i dymuno'n dda iddynt a diolch am eu mewnbwn.

(Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am)

---



## NORTH WALES RESIDUAL WASTE TREATMENT PROJECT PROGRESS REPORT

### PROJECT BOARD

**Date : 24<sup>th</sup> November 2016**

**Period: 20 June 2016 to 24 November 2016**

### PROJECT SUMMARY

To procure a sustainable waste management solution for the 5 local authorities in North Wales (Conwy, Denbighshire, Flintshire, Gwynedd and Isle of Anglesey) that will assist with the reduction in greenhouse gas emissions from landfill and will minimise the tonnage of waste residue sent to landfill thus ensuring that the authorities avoid Landfill Allowance Scheme (LAS) infraction penalties and meet National Waste Strategy targets.

### PROJECT STATUS

<b>Overall Project Status</b>	
Green	<p>The procurement is now in its final phase, with all commercial discussions closed. Financial Close and contract awarded are targeted for early December.</p> <p>Final iteration of the Inter Authority Agreement is to be distributed to partner authority imminently (prior to Joint Committee meeting).</p> <p>Full update is in agenda item 8.</p>

<b>Budget status</b>	
Green	Budget v expenditure for financial year to date will be provided at the meeting.

<b>Status</b>	<b>Meaning</b>
Green	There are no problems; all is progressing well and to plan
Amber	There are some minor/ less significant problems. Action is needed in some areas but other parts are progressing satisfactory



<b>Red</b>	There are significant problems and urgent and decisive action is needed.
------------	--

**PROJECT UPDATE – Activities due for**

ID	Activity	RAG status	Comments	Forecast	Actual
83					
104					
114					
125					
126					
127					
128					
129	Completion of fine tuning and clarification with WTI	Amber	See item 7 on agenda	July 2016	
130					
131	Develop contract management structure for post financial close	Amber	Update to be provided at meeting	September 2016	
132	Finalise the IAA2 with legal, technical and financial officer groups	Green	Final iteration to be distributed to the authorities by 21 November 2016	November 2016	
133					
134	Work through new mark up of Project Agreement (PA) (contract) as a result of changes to WTI's bid	Amber	All commercial points now closed down (see item 7 on the agenda)	July 2015	Complete
135	Work through financial model of WTI's revised bid	Green	This is covered in agenda item 7	October 2016	Complete
136					
137					
138	Set and agree detailed Project Plan for finalising agreements with WTI	Green	Now in final weeks with WTI. Weekly progress calls have proved	October 2016	On going
139	Set meetings with	Green	Weekly conference	April 2016	On going



	WTI going forward		calls taking place		
140	Transfer Station Network – Conwy to provide options for site	Green	Two site option now agreed by Project Board, Conwy and Denbighshire working on site plans etc. See agenda item 8.	October 2016	Complete
141	Agreement to be reached on site for waste transfer station for Conwy and north Denbighshire	Green	See 140 above	April 2016	Complete
142	Project plan the development of the site (see 140 and 141) – e.g. design etc	Green	Both authorities well advanced in their design process. See agenda item 8.	April 2017	
143	Decide on Foreign Exchange approach	Green	Approach now clear – will be set and Financial Close. See agenda item 7.	October 2016	
144	Consider areas of future collaborative working	Green	To be considered at a future Project Board.	December 2016	
145	Ensure discussions are live with WTI and other relevant parties (e.g. Northern Gateway developers, Welsh Government) and stakeholders related to the use of heat	Green	WTI have already been in discussions with WG and both Northern Gateway developers about the use heat, however the partnership can provide a vital steer to the discussions and the project.	Long term	
146	Develop Contract Management Structure	Green	The Project Board have met and discussed the contract management structure, and agreed a way forward. Job Descriptions etc now developed and recruitment process to begin shortly.	February 2017	
147	Implement new contract management structure (appoint staff etc)	Green	As 146 above.	September 2016	



148	Develop Contract Manual	Amber	Project Manager has begun work on the Contract Manual, although progress has slowed as the workload has increased as the project nears Financial Close. After Financial Close, time can be allocated to completing this task.	March 2017	
-----	-------------------------	-------	---	------------	--

**KEY RISKS** – No change from that

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag